

Mae **Ofwat** (Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn gyfrifol a sicrhau bod y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwasanaeth effeithiol ac o ansawdd da i gwsmeriaid am bris teg.

Adroddiad blynyddol 2008-09

Gwarchod defnyddwyr, hyrwyddo gwerth, diogelu'r dyfodol



Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa (TSO) ac ar gael:

Ar-lein
www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebu drwy Parliamentary Hotline Lo-Call: 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square, London SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngwrwyd: www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Gall cwsmeriaid hefyd archebu o
TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
Ffôn: 028 9023 8451
Ffacs: 028 9023 5401



Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA
Ffôn: 0121 625 1300
Ffacs: 0121 625 1400
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: enquiries@ofwat.gsi.gov.uk

Fotograffau © Getty Images/Shine
Pictures/iStockphoto
Argraffwyd ar Revive Silk 75, papur carbon-
niwtral sy'n cynnwys o leiaf 75% o bapur
gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddat-incio

Gorffennaf 2009
© Hawlfraint y Goron 2009

www.ofwat.gov.uk





Adroddiad blynyddol 2008-09

Am y cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 192B Deddf Diwydiant Dŵr 1991
Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 16 Gorffennaf 2009

HC 582 Llundain Y Llyfrfa £14.35

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaethom yn 2008-09 i gyflawni ein strategaeth.

Cyflwynir ein dyletswyddau yn bennaf yn y Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd). Rydym yn atebol yn uniongyrchol i'r Senedd ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae gwybodaeth bellach am ein gwaith ar gael ar ein gwefan ar www.ofwat.gov.uk.

Cynnwys

Ein strategaeth	4
Rhagair y Cadeirydd	5
Pwy ydym ni	6
Adroddiad y Prif Weithredwr	7
1. Gwarchod defnyddwyr	9
2. Hyrwyddo gwerth	13
3. Diogelu'r dyfodol	17
4. Sut yr ydym yn gwneud ein gwaith	21
Atodiadau	25

© Hawlfraint y Goron 2009

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen.


Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd yn rhaid i chi gael caniatâd oddi wrth ddeiliaid yr hawlfraint hwnnw.

Am unrhyw ddefnydd arall o'r deunydd hwn ysgrifennwch at Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu anfonwch e-bost at licensing@opsi.gov.uk

ISBN: 978-0-10-295979-6

Ein strategaeth

Cyhoeddwyd ein strategaeth gennym ym mis Ebrill 2008. Mae'n cyflwyno ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu rheoliad economaidd o'r sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr dros yr hir dymor. Mae hefyd yn disgrifio sut y byddwn yn gwarchod defnyddwyr, hyrwyddo gwerth a diogelu'r dyfodol. Eglurir y nod hwn isod, yn ogystal â'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig ag ef.



Rhagair y Cadeirydd

Cyhoeddwyd ein strategaeth gennym ar ddechrau'r flwyddyn adrodd 2008-09. Ers hynny, rydym wedi cyflawni nifer o'r camau sy'n angenrheidiol i weithredu'r strategaeth.

Ein gwaith yw gwarchod defnyddwyr. Y lifer pwysicaf sydd wedi bodoli i wneud hyn ers preifateiddio'r sectorau yw'r cap yr ydym yn ei osod bob pum mlynedd ar brisiau dŵr a charthffosiaeth. Cafwyd gwelliannau mawr yn yr 20 mlynedd diwethaf ym meysydd gwasanaeth, ansawdd dŵr yfed ac ychwanegiadau amgylcheddol. Ac er bod y gwelliannau hyn wedi costio, mae biliau dŵr ar gyfartaledd heddiw yn parhau i fod tua £100 yn is nag y byddent wedi bod heb her effeithlonrwydd Ofwat i'r cw nïau dŵr.

Yn 2008, gwnaethom hi'n ofynnol i'r cwmnïau ganolbwyntio'n gyntaf ar yr angen i gynllunio ar gyfer y tymor hir drwy baratoi datganiadau cyfeiriad strategol 25-mlynedd. Roedd y rhain yn cymryd i ystyriaeth ein dealltwriaeth fel y mae'n datblygu o newid hinsawdd a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd, yn ogystal â sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn gwerth am arian.

Profwyd cynigion y cwmnïau wrth ymgynghori â'r rheoleiddwyr amgylcheddol ac ansawdd, a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Rydym hefyd wedi profi'r cynigion manwl yng nghynlluniau busnes pum mlynedd terfynol y cwmnïau. Byddwn yn cyflwyno ein hymateb pan fyddwn yn cyhoeddi ein terfynau prisiau drafft ym mis Gorffennaf, a'r terfynau prisiau terfynol ym mis Tachwedd 2009.

Er gwaethaf y gwelliannau, daw'n fwy a mwy amlwg nad yw dibynnu ar offerynnau rheoleiddiol o'r brig i lawr er mwyn gwarchod defnyddwyr yn mynd i drosglwyddo'r gwerth gorau iddynt am byth. Felly, dros y flwyddyn rydym wedi annog y Llywodraeth, y Senedd a Chynulliad Cymru i newid y drefn statudol i roi gwerth gwell fyth. Yn arbennig, dymunwn weld

gwelliant yn y gyfundrefn statudol ddiffygiol ar gyfer cyflwyno arwyddion y farchnad ar gyfer prisio dŵr. Rydym hefyd yn dymuno annog trafodaeth egniol ynghylch y ffordd orau o godi tâl am ddŵr mewn modd a fydd yn dod â manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Rydym wedi croesawu'r ymateb agored a dderbyniasom.

Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth wedi sefydlu adolygiadau annibynnol ar

Rydym am annog trafodaeth ar y ffordd orau o godi tâl am ddŵr

gystadleuaeth ac arloesedd ac ar agweddau cymdeithasol codi tâl am ddŵr, a gyflawnir gan yr Athro Martin Cave ac Anna Walker. Rydym wedi cynyddu ein gallu ein hunain i ddatblygu cynigion o'r fath yn sylweddol ac yn ymateb i soffistigedigrwydd a chymhlethdod cynyddol rheoleiddio economaidd.

Wrth baratoi at y dyfodol, rydym hefyd wedi ymdrin â phroblemau'r presennol. Fel y dengys adroddiad Regina Finn, rydym wedi gorfodi cosbau am dorri gofynion rheoleiddiol, wedi monitro'n agos sut mae cwmnïau wedi cyflawni eu hymrwymadau ac wedi pwysu am welliannau yn y gwasanaeth i'r cwsmer lle mae'r rhain wedi bod yn ddiffygiol.

Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr ar Fwrdd Ofwat sydd wedi gweithio'n galed i warchod defnyddwyr, hyrwyddo gwerth a diogelu'r dyfodol. Ac rwy'n talu teyrnged i waith Regina Finn a staff Ofwat. Maent wedi ymdrin â'r gwaith o weithredu ein strategaeth gyda sgil a phenderfyniad. Edrychwn ymlaen at heriau parhaus y dyfodol.

Philip Fletcher
Cadeirydd

Pwy ydym ni

Y Bwrdd



Philip Fletcher
Cadeirydd



Regina Finn
Prif Weithredwr



Penny Boys
Cyfarwyddwr
Anweithredol



Michael Brooker
Cyfarwyddwr
Anweithredol



Peter Bucks
Cyfarwyddwr
Anweithredol



Jane May
Cyfarwyddwr
Anweithredol



Gillian Owen
Cyfarwyddwr
Anweithredol



Keith Mason
Cyfarwyddwr Cyllid
Rheoleiddiol



Cathryn Ross
Cyfarwyddwr
Marchnadoedd

Y Weithrediaeth

Regina Finn
Prif Weithredwr

Rob Ashley
Cyfarwyddwr
Materion Allanol
dros dro

Huw Brooker
Cyfarwyddwr
Gwasanaethau
Cyfreithiol ac
Ysgrifennydd i'r
Bwrdd

George Day
Cyfarwyddwr
Rheoleiddio'r
Rhwydwaith

Andrew Dunn
Cyfarwyddwr
Gwarchod
Defnyddwyr

Roger Dunshea
Cyfarwyddwr
Gweithrediadau

Keith Mason
Cyfarwyddwr
Cyllid
Rheoleiddiol

Cathryn Ross
Cyfarwyddwr
Marchnadoedd

Adroddiad y Prif Weithredwr

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un anodd. Mae'r dirywiad economaidd wedi creu pryderon ariannol i bawb. Nid yw gwarchod y gwasanaethau mae cwsmeriaid dŵr yn ei dderbyn a'r biliau maent yn eu talu erioed wedi bod mor hanfodol. Rydym wedi gweithio i wneud hyn ar gyfer cwsmeriaid nawr ac yn y cyfnod o bum mlynedd sydd i ddod. Rydym yn canolbwyntio hefyd ar ddarparu gwasanaethau dŵr cynaliadwy yn awr ac yn y tymor hir.

Rydym wedi gwneud y cwmnïau'n atebol am y gwasanaeth maent yn ei roi i gwsmeriaid. Yn 2008-09, cymerwyd camau gorfodi gennym yn erbyn cwmnïau monopoli a fethodd â chyflawni eu hymrwymadau a disgwyliadau eu cwsmeriaid. Er enghraifft, gosodwyd cosbau a chasglwyd dros £70 miliwn fel iawn i gwsmeriaid. Bydd ein mesurau newydd ynghylch gwasanaeth y cwsmer yn ysgogi'r cwmnïau i wella ymhellach. Yn ein cyfraniad i arolwg codi tâl a mesur Walker, datganwyd gennym unwaith eto ein cred y dylai taliadau adlewyrchu'r costau.

I hysbysu'r terfynau prisiau a osodwyd ar gyfer 2010-15, cynaliasom ymchwil cwsmeriaid ar y cyd am y tro cyntaf gyda saith o randdeiliaid, yn cynnwys y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Mae hyn wedi ein galluogi i gadw barn a lles defnyddwyr wrth galon y broses o osod prisiau. Datblygwyd offer rheoleiddiol newydd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn am brisiau, megis y cynllun cymhelliant ar gyfer gwariant cyfalaf a'r mecanwaith cywiro refeniw. Mae'r rhain yn rhoi cymhelliant i gwmnïau wella eu perfformiad hyd yn oed ar ôl i ni osod terfynau pris terfynol ym mis Tachwedd 2009.

Er ein bod wedi canolbwyntio ar yr adolygiad prisiau am y flwyddyn ddiwethaf, nid ydym yn sefyll yn ein hunfan. Rydym yn darganfod ffyrdd creadigol i fynd i'r afael â heriau twf poblogaeth a newid hinsawdd yn y dyfodol yn erbyn cefndir o bwysau economaidd. Bydd y Llwyfan Arloesedd Dŵr yr ydym yn ei ddatblygu gyda'r Bwrdd Strategaeth Technoleg yn cynorthwyo i

ariannu arloesedd yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth.

Ein nod yw rhoi'r cymhelliant cywir i gwmnïau i ddarparu'r atebion a'r gwasanaethau y mae ar gwsmeriaid eu hangen. Mae angen i gwmnïau a chwsmeriaid ddeall gwerth dŵr yn eu hardal fel y gall taliadau fod yn deg a thryloyw. Dyna pam yr ydym yn archwilio rôl marchnadoedd, yn gweithio'n agos ag adolygiad Cave o gystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd dŵr. Roedd ein gwaith i ddatguddio gwerth dŵr yn cynnwys camau tuag at gyfrifeg ar wahân.

Eleni, cyhoeddwyd ein datganiad polisi newid hinsawdd gennym, a chanllawiau eraill ar sut y gall y

Nid yw gwarchod y gwasanaethau mae cwsmeriaid dŵr yn eu derbyn a'r biliau maent yn eu talu erioed wedi bod mor hanfodol

cwmnïau addasu i batrymau tywydd sy'n newid a'u lliniaru. Roeddem hefyd yn gofyn i'r cwmnïau adrodd am eu hallyriadau carbon am y tro cyntaf, gan eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd. Croesawyd adroddiad Syr Michael Pitt gennym ac argymelliadau ynghylch sut y dylai cymdeithas ddelio â pheryglon llifogydd.

Buom yn gweithio'n agos eleni gyda rhanddeiliaid, yn cynnwys y Llywodraeth, i ddatblygu drafft o'r Mesur Llifogydd a Rheoli Dŵr ac Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch adolygiad o fasnachu hawliau tynnu dŵr.

Hoffwn ddiolch i'n rhanddeiliaid am gyfrannu'n barhaus at ein gwaith.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr am eu hymroddiad sy'n parhau i warchod cwsmeriaid, hyrwyddo gwerth a diogelu'r dyfodol.

Regina Finn
Prif Weithredwr



24,121

Cyfanswm nifer y cwsmeriaid a wnaeth gais llwyddiannus am dariff 'Watersure' yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf (2007-08). Mae'r tariff yn amddiffyn cwsmeriaid sydd â mesurydd dŵr, ac sy'n bodloni rhai amodau, rhag biliau dŵr uchel.

£35.8 miliwn

Y cyfanswm y dirwywyd Dŵr Hafren a Trent gennym am roi gwybodaeth ffug i ni yn ffriadol ac am ddarparu gwasanaeth gwael i'w gwsmeriaid.

1. Gwarchod defnyddwyr

Gwnaethom gynnydd da wrth baratoi ar gyfer adolygiad prisiau 2009 (PR09) lle byddwn yn gosod terfynau ar brisiau i'r cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio am y cyfnod 2010-15. Byddwn yn cyhoeddi ein terfynau prisiau drafft i bobl ymgynghori yn eu cylch ym mis Gorffennaf a'r terfynau terfynol ym mis Tachwedd 2009. Fel rhan o'r gwaith hwn, roedd ein hagwedd at warchod defnyddwyr yn cynnwys:

- herio cynlluniau busnes y cwmnïau, a gwneud yn siŵr eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, yn cynnwys parodrwydd cwsmeriaid i dalu; a
- chomisiynu ymchwil ar y cyd i farn defnyddwyr am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth. Cynorthwyodd hyn y cwmnïau i ffurfio cynlluniau busnes terfynol a fydd yn cael eu hystyried pan fyddwn yn gosod terfynau ar brisiau.

Ym mis Mawrth 2009, cyhoeddwyd gennym ein ffordd o ymdrin â gorfodi (gweler 'Astudiaeth achos: sicrhau cydymffuriad a newid ymddygiad' ar dudalen 11). Roedd hyn yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio ein pwerau i warchod lles defnyddwyr lle nad yw cwmnïau yn llwyddo i gydymffurfio â'u hymrwymadau. Yn 2008-09, fe wnaethom weithredu a cheisio casglu iawndal i gwsmeriaid lle nad oedd cwmnïau wedi rhoi data dibynadwy, cywir a chyflawn i ni.

Dirwywyd Dŵr Hafren Trent gennym i dalu £35.8 miliwn. Roedd hyn yn ymateb i gam-adrodd bwriadol ar wybodaeth am gwsmeriaid gan y cwmni a methiant i ddarparu safon sylfaenol o wasanaeth.

Dirwywyd Tendring Hundred Water £42,000 hefyd am gam-adrodd gwybodaeth. Ym mhob achos, gofalwyd bod y cwsmeriaid yn derbyn iawndal ac nad oedd y cwmnïau yn manteisio o'r cam-adrodd.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd gennym ymchwiliad i gam-adrodd pwrpasol am wybodaeth yn ymwneud â biliau ar gyfer cwsmeriaid â mesurydd yn Three Valleys Water. Nid oeddem yn gallu gorfodi cosbau ariannol oherwydd cyfyngiadau amser statudol. Fodd bynnag, mae'r cwmni wedi sefydlu cronfa elusennol i gynorthwyo cwsmeriaid sy'n cael trafferthion i dalu eu biliau dŵr. Mae hyn er mwyn cydnabod y niwed i'w cwsmeriaid ac i integriti'r systemau yr ydym yn eu defnyddio i reoleiddio. Cwtogodd y cwmni hefyd ar eu terfynau brisiau er mwyn rhoi arian na ddylai fod wedi ei dderbyn fel rhan o'r adolygiad prisiau yn 2004 yn ôl i gwsmeriaid.

Ym mis Medi 2008, sicrhawyd cytundeb cyfreithiol gennym gydag United Utilities i fynd i'r afael â phroblemau mewn eiddo yn ardal Penketh o Warrington a effeithiwyd gan garthffos yn gorlifo. Rydym yn monitro cynnydd. Gweithredwyd yn erbyn y cwmni mewn nifer o ardaloedd eraill yn ogystal.

- Fel ymateb i'n pryderon ynglŷn â phrosesau'r cwmni, mae United Utilities wedi sefydlu systemau newydd i ymchwilio i ac i gofnodi digwyddiadau lle mae carthffosydd yn gorlifo. Bydd trydydd parti yn gwirio bod y systemau hyn yn rhai cadarn.
- Arweiniodd y methiannau yn ei systemau a'i brosesau at gam-adrodd gwybodaeth gan United Utilities ynghylch y nifer o

“Rydym angen polisiau codi tâl cynaliadwy fel y gallwn gynnal y gwasanaethau cynaliadwy y mae ar ddefnyddwyr eu heisiau. Roedd cyhoeddi ein strategaeth ar gyfer y dyfodol ynghylch taliadau'r cwsmer yn rhan allweddol o hyn.”

Andrew Dunn
Cyfarwyddwr Gwarchod Defnyddwyr

ddigwyddiadau o garthffosydd yn gorlifo a nifer yr eiddo ar ei gofrestrau 'mewn perygl'. Mae'r cwmni wedi cytuno i fuddsoddi mewn atebion peirianeg i gynorthwyo i leihau'r problemau ynghylch carthffosydd yn gorlifo sy'n wynebu'r holl gwsmeriaid y mae eu heiddo bellach ar y cofrestrau 'mewn perygl'. Bydd cyfranddalwyr yn talu'r gost hon. Mae United Utilities hefyd yn rhoi taliadau, o dan y cynllun safonau gwarantiedig, i gwsmeriaid oedd â hawl iddynt ond nad oeddent wedi eu derbyn.

- Yn gynnar yn 2008, rhoddwyd tystiolaeth gan ymgynghorydd bod United Utilities yn y gorffennol wedi sylwi ar gynnydd yng ngwerthoedd trethadwy busnesau ac ôl-ddyddiwyd taliadau i adlewyrchu'r gwerthoedd hynny. Fe wnaethom ymchwilio a darganfod nad oedd United Utilities wedi adrodd yn gywir i ni am y gweithgaredd hwn. O ganlyniad, mae'r cwmni wedi cytuno i barhau i gynnid ad-daliadau i gwsmeriaid y mae eu gwerth trethadwy wedi gostwng, yn ogystal â 10% yn ychwanegol.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniasom dros 400 o gwynion ynglŷn â chynlluniau cwmnïau i godi tâl ar gwsmeriaid busnes am ddraenio dŵr wyneb yn ôl arwynebedd y safle. Roedd dros 75% o'r cwynion hyn gan gwsmeriaid United Utilities. Deuai'r rhan fwyaf o gwynion gan gynrychiolwyr eglwysi a chlybiau chwaraeon.

Mae United Utilities wedi cydnabod ei fod wedi gwneud camgymeriadau oedd yn effeithio ar rai

cwsmeriaid wrth weithredu'r newid i'w system o godi tâl. Arweiniodd y camgymeriadau hyn at anhrefn ac anghyfleustra i'r cwsmeriaid a gafodd eu heffeithio. Roeddem yn falch fod y cwmni wedi penderfynu gohirio'r taliad am flwyddyn i addoldai, rhai clybiau chwaraeon, ac eiddo Cymdeithas y Sgowtiaid a'r Geidiaid ar ei gost ei hun, er mwyn gweithio'n agosach â chwsmeriaid i esbonio manteision y newid.

Ym mis Tachwedd 2008, gwrthodwyd cais Sutton & East Surrey Water gennym i godi ei brisiau gan 10.2% ar gyfartaledd (cyn chwyddiant) yn 2009-10. Byddai'r cynnydd hwn wedi golygu biliau uwch i dros 250,000 o gwsmeriaid. Cyfeiriwyd yr achos bellach at y Comisiwn Cystadleuaeth.

Cyhoeddwyd gennym ein strategaeth ar gyfer y dyfodol ynglŷn â thaliadau cwsmeriaid am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth ym mis Awst 2008. Mae hyn i annog y cwmnïau i ddatblygu systemau codi tâl sy'n cynorthwyo cwsmeriaid i ddeall gwerth y dŵr maent yn ei ddefnyddio. Yn ogystal, cymeradwywyd nifer o dreialon tariffau hefyd i brofi rhai mathau arloesol o godi tâl. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau Dŵr Uniongyrchol a Casglu Dŵr, Dŵr Cymru, sydd â'r nod o gynorthwyo cwsmeriaid cymwys i dalu eu biliau.

Yn ystod y flwyddyn, diweddarwyd gennym ein canllawiau am y cymorth y dylai cwmnïau ei gynnid i ddefnyddwyr anabl neu'r henoed. Mae enghreifftiau

o'r cymorth arbennig mae cwmnïau yn ei roi yn cynnwys cynlluniau cyfrineiriau i atal galwyr ffug a darparu biliau mewn print bras neu Braille. Cyhoeddwyd gennym ganllawiau hefyd er mwyn cryfhau gweithdrefnau'r cwmnïau wrth iddynt ddelio â chwsmeriaid sy'n cael eu heffeithio gan garthffosydd yn gorlifo.

Roedd y gwaith arall a wnaed eleni yn cynnwys:

- treialu ffyrdd newydd o fesur profiadau cwsmeriaid wrth iddynt ddelio â'u cwmni. Bydd y mesurau hyn

yn ffurfio rhan o ddull diwygiedig i sbarduno gwelliannau pellach yn y gwasanaeth i'r cwsmer.

- gwirio a chymeradwyo taliadau'r cwmnïau ar gyfer 2009-10; a
- gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Fforwm PR09 Cymru a rhanddeiliaid eraill o Gymru. Rydym wedi creu cysylltiadau cadarnhaol sy'n cefnogi rhoi gwarchodaeth barhaol i ddefnyddwyr o Gymru o fewn cyd-destun gweinyddiaeth ddatganoledig.

Gwarchod defnyddwyr: astudiaeth achos

Sicrhau cydymffurfiaid a newid ymddygiad

Mewn marchnadoedd cystadleuol, gall y cwsmeriaid ddewis rhwng darparwyr gwahanol os nad ydynt yn derbyn y gwasanaeth maent yn talu amdano, neu os yw'r cwmni yn methu mewn rhyw ffordd arall. Yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth nid oes gan y rhan fwyaf o gwsmeriaid ddewis o ddarparwyr, felly ein rôl ni yw gwarchod eu lles.

Rydym yn disgwyl i bob cwmni ddarparu'r gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel mae eu cwsmeriaid yn eu disgwyl, ac am bris teg. Os nad yw cwmni yn gwneud hyn, fe weithredwn.

Bydd ein hymagwedd tuag at orfodi, a gyhoeddwyd eleni, yn sicrhau bod y cwmnïau yn deall sut y byddwn yn gweithredu os methant â chyflenwi. Dylai cwmnïau gydymffurfio â'u hymrwymadau statudol a newid eu hymddygiad lle bo angen er mwyn gwneud hynny.

Rydym yn ymchwilio mewn achosion lle mae'n bosibl nad yw'r cwmnïau'n bodloni'r safonau sy'n ofynnol. Mae'r camau a gymerwn yn dibynnu ar natur, difrifoldeb ac effaith y methiant. Un o nodweddion allweddol ein dull yw adfer unrhyw niwed a achoswyd i gwsmeriaid. Rydym hefyd yn defnyddio ein pwerau dirwyo ar gyfer y methiannau mwyaf difrifol.



Yn ystod 2008-09, fe wnaethom ymchwilio a chymryd camau gorfodi yn erbyn nifer o gwmnïau. Roedd hyn yn cynnwys gosod dirwyon a sicrhau iawndal o dros £70 miliwn i gwsmeriaid.

Ingrid Olsen
Pennaeth Polisi Gorfodi



2. Hyrwyddo gwerth

Fel rhan o'n paratodau ar gyfer adolygiad prisiau 2009, roedd ein hymagwedd tuag at hyrwyddo gwerth yn cynnwys:

- herio cynigion buddsoddi cyfalaf drafft pob cwmni i sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi llinell sylfaen ddrafft ar gyfer y cynllun cymhelliant gwariant cyfalaf ym mis Rhagfyr 2008 (gweler 'Astudiaeth achos: annog meddwl yn wreiddiol a syniadau newydd' ar dudalen 15);
- herio cyflwyniad costau sail drafft pob cwmni. Mae hyn yn cynnwys brasamcanion o beth y bydd ei angen arnynt i gwblhau amrywiaeth o brosiectau safonol, gan ein cynorthwyo i gymharu costau ar draws y sectorau dŵr a charthffosiaeth;
- cyhoeddi adroddiad ar y cyfle tebygol am welliannau o ran effeithiolrwydd yn y

sectorau dŵr a charthffosiaeth rhwng 2010 a 2025. Byddwn yn cymryd y darganfyddiadau hyn i ystyriaeth, ymhlith unrhyw dystiolaeth arall, i hysbysu'r tybiaethau y byddwn yn eu gwneud ynghylch effeithlonrwydd yn yr adolygiad; a

- gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygaeth Dŵr Yfed i nodi'r atebion mwyaf cost effeithiol a buddiol o ran costau er mwyn bodloni gwelliannau amgylcheddol a gwelliannau i ansawdd y dŵr yfed, a gofynion deddfwriaethol.

Buom hefyd yn gweithio gyda'r Bwrdd Strategaeth Technoleg i ddatblygu cynigion cychwynol ar gyfer Llwyfan Arloesedd Dŵr. Yn ogystal â rhoi manteision eraill, gallai hyn ddarparu cyllid i gynnal arloesedd o fewn y sectorau dŵr a charthffosiaeth dros y degawd nesaf.

Ym mis Mai 2008, cyhoeddwyd gennym yr ail ran o'n hadolygiad o gystadleuaeth yn y

Cyflwyno cystadleuaeth yn gynyddol lle mae o fudd i ddefnyddwyr • Rheoleiddio'n effeithiol lle na fydd cystadleuaeth yn gwarchod defnyddwyr

8.1%

Buddsoddwyd £4.9 biliwn gan gwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf (2007-08) i gynnal asedau a buddsoddi mewn cyfleusterau newydd – cynnydd gan 8.1% ar y flwyddyn flaenorol.

32

Derbyniwyd 32 cais am benodiadau newydd yn 2008-09, o'i gymharu â dim ond pump yn 2007-08. Penodiadau newydd yw lle mae cwmni dŵr neu garthffosiaeth trwyddedig yn cymryd lle un arall i wasanaethu cwsmeriaid mewn ardal benodol o Gymru a Lloegr.

“Mae’r sectorau a reoleiddiwn yn wynebu nifer o heriau. Rydym angen rheoliad gwell, mwy hyblyg i gyflawni’r atebion cynaliadwy y mae arnom eu hangen – ac mae hynny’n cynnwys harneisio grymoedd y farchnad.”

**Cathryn Ross
Cyfarwyddwr Marchnadoedd**

sectorau dŵr a charthffosiaeth. Ynddo, argymhellwyd gennym y dylid agor rhannau o’r farchnad dŵr a charthffosiaeth i gystadleuaeth lle byddai hyn o fudd i ddefnyddwyr, gan gynnwys rhoi mwy o ddewis ac arloesi wrth ddarparu gwasanaeth. Gwnaethom hefyd amlinellu’r gwaith y byddwn yn ei wneud i gyflawni hyn.

Yn ogystal, buom yn cyfrannu at adolygiad annibynnol y Llywodraeth o gystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd dŵr, o dan arweiniad yr Athro Martin Cave (‘adolygiad Cave’). Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi ein hymateb i adroddiad interim adolygiad Cave ym mis Rhagfyr 2008.

Fel rhan o hyn, buom yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i wella masnachu hawliau tynnu dŵr. Dyma lle caiff trwyddedau i dynnu dŵr eu prynu a’u gwerthu ar y farchnad, sydd felly’n datgelu gwybodaeth ynglŷn â gwerth amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cymharol dŵr a dynnir o leoliadau gwahanol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn anfon arwyddion effeithlon ynglŷn â lle mae angen arloesedd a buddsoddiad i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy i gwsmeriaid. Cyflwynwyd crynodeb gennym ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd i adolygiad Cave ynglŷn â’r gwaith hwn.

Eleni, cymeradwywyd pedwar cais am benodiadau newydd gennym. Roedd hyn yn cynnwys ceisiadau gan ddau gwmni newydd, a bydd un ohonynt yn defnyddio dull carbon isel o drin carthffosiaeth ar safleoedd i ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth i bentref yn Hampshire.

Ym mis Medi 2008 a mis Mawrth 2009, buom yn ymgynghori ar gam cyntaf ac ail gam ein dull i weithredu gwahanu cyfrifeg ffurfiol ar gyfer y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio. Bydd gwahanu cyfrifon yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni gynhyrchu gwybodaeth glir ynglŷn â rhannau gwahanol o’u busnes. Gall bod â dealltwriaeth well o gostau ddod â manteision i ddefnyddwyr gan ei fod yn gymorth i hysbysu rheoleiddio ac yn datgelu cyfleoedd ar gyfer cystadleuaeth ac arloesedd.

Yn olaf, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig gennym am gystadleuaeth wrth ddarparu’r prif gyflenwad dŵr. Mae hyn yn ymestyn y cyfle i alluogi sefydliadau hunan-osod i wneud cysylltiadau o bibellau gwasanaeth i brif gyflenwadau dŵr cwmnïau penodedig. Dylai hyn wneud y farchnad hon yn fwy cystadleuol.

Annog meddwl yn wreiddiol a syniadau newydd

I oresgyn y nifer o heriau newydd a wynebant dros y blynyddoedd sydd i ddod, bydd angen i’r cwmnïau ddarganfod ffyrdd arloesol i ddarparu gwasanaethau. O’n rhan ni, bydd angen i ni reoleiddio mewn modd sy’n annog arloesedd tra’n parhau i sicrhau bod y cwmnïau’n darparu gwasanaethau cynaliadwy i ddefnyddwyr.

Am y rhesymau hyn, rydym wedi datblygu cynllun cymhelliant gwariant cyfalaf (CIS) ar gyfer PR09. Gwariant cyfalaf yw’r buddsoddiad y mae angen i’r cwmnïau ei wneud i wella gallu, gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr, ac i gynnal ac adnewyddu eu seilwaith a’u hasedau eraill.

Cyfrifon buddsoddiad cyfalaf sy’n ffurfio’r rhan fwyaf o filiau cwsmeriaid. Felly, mae’n bwysig eu bod nhw’n cael y gwerth gorau posibl o hyn. Rydym yn herio’r cwmnïau i gyflawni’r buddsoddiad hwn yn effeithiol and yn effeithlon. Fe wna’r CIS ddau beth.

- Mae’n annog y cwmnïau i gyflwyno cynlluniau busnes heriol i ni, yn seiliedig ar wybodaeth realistig ynghylch faint mae angen iddynt ei fuddsoddi.
- Mae’n rhoi cymhelliant ariannol i’r cwmnïau i chwilio’n barhaus am ffyrdd mwy effeithlon o gyflenwi eu rhaglenni buddsoddi yn effeithiol. Mae’r cwmnïau’n cadw’r enillion nes ein bod yn gosod y terfynau nesaf ar brisiau; yna fe’u dychwelir i’r cwsmeriaid drwy filiau is.

Mae llawer o’n gwaith eleni wedi canolbwyntio ar y dadansoddi a’r her sy’n ofynnol er mwyn i ni gyflawni’r CIS. Bydd yn ffurfio rhan allweddol o’n penderfyniadau terfynol ar derfynau prisiau ym mis Tachwedd 2009.

Cyflwynodd pob cwmni ei gynllun busnes drafft i ni ym mis Awst 2008. Buom yn adolygu ac yn herio’r cynlluniau hyn, a chyhoeddwyd canlyniadau dechreuol ein dadansoddiad yn ‘Capital expenditure for 2010-15: Ofwat’s view on companies’ draft business plans’ ym mis Rhagfyr 2008. Fel cam newydd yn y broses o osod terfynau prisiau, fe gafodd y cwmnïau ein barn ni ynglŷn â’u cynlluniau buddsoddi yn gynharach nag erioed o’r blaen.

Daethom i’r casgliad nad oedd y cwmnïau’n rhoi digon o dystiolaeth na chyfiawnhad dros tua 30% o’r buddsoddiad o £24.7 biliwn roeddent yn ei argymell. Yn ogystal â galluogi’r cwmnïau i ganolbwyntio ar beth yr oedd angen iddynt ei wella ar gyfer cynlluniau busnes terfynol, roedd cyhoeddi’r wybodaeth hon yn eu galluogi i gynllunio eu buddsoddiad yn fwy eglur. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall gymryd blynyddoedd i gyflawni rhai asedau. Mae hefyd yn cynorthwyo’r cwmnïau i gynnal cadwynau cyflenwi cynaliadwy drwy osgoi cynnydd neu leihad sydyn yn eu gwariant. Mae hyn o fudd i ddefnyddwyr gan ei fod yn arwain at lai o oedi a buddsoddiad mwy effeithlon.



**Helen Twelves
Pennaeth Effeithlonrwydd Cymharol**



3. Diogelu'r dyfodol

Roedd ein dull o ddiogelu'r dyfodol fel rhan o'n gwaith PR09 eleni yn cynnwys:

- cyflwyno targedau ar gyfer mwy o arbedion effeithlonrwydd dŵr gan y cwmnïau. Rydym yn disgwyl y bydd y cwmnïau yn cynyddu'r arbedion effeithlonrwydd gan 40%, yn ychwanegol at yr arbedion y disgwylwn iddynt eu gwneud o'u targedau gollyngiadau a thrwy fwy o fesur;
- adolygu a herio cynlluniau rheoli adnoddau dŵr 25 mlynedd drafft a therfynol pob cwmni (a gyhoeddwyd gennym mewn cyngor i DEFRA). Mae'r rhain yn cyflwyno sut mae'r cwmnïau'n bwriadu darparu digon o ddŵr i ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid.
- gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i lunio canllawiau wedi eu diweddarau i gwmnïau ynghylch cynllunio buddsoddiadau adnoddau dŵr;
- cyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylai'r cwmnïau gymryd perygl llifogydd a newid

hinsawdd i ystyriaeth. Bydd hyn yn eu galluogi i wella cadernid eu systemau mewn ffordd dryloyw ac yn systematig;

- dadansoddi goblygiadau carbon o gyflwyniadau cynlluniau busnes drafft y cwmnïau. Rydym yn disgwyl i bob cwmni chwarae ei ran i liniaru newid hinsawdd drwy gymryd allyriadau carbon i ystyriaeth wrth gynllunio buddsoddiadau; a
- chyhoeddi canllawiau i'r cwmnïau ar ddefnyddio ynni adnewyddadwy. Mae hyn fel y gallwn sicrhau y bydd defnyddwyr yn manteisio ar y defnydd priodol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac nad ydynt yn wynebu unrhyw gostau neu beryglon gormodol.

Ym mis Gorffennaf 2008, cyhoeddwyd gennym ddatganiad polisi cynhwysfawr ar newid hinsawdd a'i effaith ar y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal, i annog y cwmnïau i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr, casglwyd gwybodaeth am allyriadau pob cwmni ac

4.5 miliwn tunnell

Cyfanswm y nwyon tŷ gwydr sydd gyfwerth â charbon deuocsid a ryddhawyd i'r atmosffer gan y cwmnïau statudol yr ydym yn eu rheoleiddio yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf (2007-8). Hwn oedd y tro cyntaf i ni gasglu'r data hwn.

40%

Y cynnydd yn yr arbedion effeithlonrwydd dŵr yr ydym yn disgwyl i'r cwmnïau eu gwneud erbyn 2015, yn seiliedig ar y targedau a gyhoeddwyd gennym yn ystod 2008-09.

“Buom yn canolbwyntio ar rai heriau mawr eleni, yn cynnwys newid hinsawdd, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd dŵr. Rydym am gael gwasanaethau dŵr cynaliadwy i ddefnyddwyr.”

George Day
Cyfarwyddwr Rheoleiddio'r Rhwydwaith

adroddwyd arnynt. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gymryd rhan hefyd yng nghynlluniau Diwydiant Dŵr y DU.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gymryd rhan mewn grwpiau llywio carbon Ymchwil Diwydiant Dŵr y DU (UKWIR) ac Asiantaeth yr Amgylchedd, a phrosiect fframwaith newid hinsawdd UKWIR. Mae hyn er mwyn cynorthwyo i wella gwybodaeth y cwmnïau ynglŷn â dulliau o addasu i newid hinsawdd a lliniaru ei effeithiau.

Gwnaethom atgyfnerthu ein hymrwymiad i'n dyletswydd tuag at gynaliadwyedd pan gyhoeddwyd 'Water today, water tomorrow – Ofwat and sustainability' gennym yn ein digwyddiad 'Dŵr cynaliadwy' ym mis Mawrth 2009. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein hymagwedd gyffredinol at reoleiddio mewn modd sy'n galluogi'r cwmnïau i ddarparu gwasanaethau dŵr cynaliadwy i ddefnyddwyr. Yn y digwyddiad, fe wnaethom drafod â'n rhanddeiliaid allweddol sut y gall y sectorau dŵr a charthffosiaeth sicrhau cynaliadwyedd dros y tymor hir.

Eleni buom hefyd yn cyfrannu tuag at ddatblygiad polisi'r llywodraeth ar lefel uchel mewn nifer o feysydd, yn cynnwys:

- adolygiad Walker ynghylch codi tâl a mesur ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth;
- adolygiad Cave yn ymwneud â chystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd dŵr;
- datblygu'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr;
- gweithredu pwerau adrodd ynghylch addasiadau o'r Ddeddf Newi Hinsawdd; ac
- ariannu cynllun Thames Tideway. Hwn yw un o'r prosiectau buddsoddi cyfalaf unigol mwyaf ers preifateiddio.

Addasu i newid hinsawdd a chynorthwyo i'w liniaru

Mae'r sectorau dŵr a charthffosiaeth yn arbennig o agored i niwed o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd. Effeithir ar bron pob rhan o weithrediadau'r cwmnïau. O gasglu dŵr crai i gael gwared â charthffosiaeth, mae angen deall goblygiadau newid hinsawdd a'u hystyried mewn cyd-destun cynaliadwy, hir dymor.

I addasu'n effeithiol, mae angen i'r cwmnïau gymryd i ystyriaeth effeithiau newid hinsawdd yn ogystal ag ansicrwydd unrhyw ragfynegiadau. Fel defnyddwyr ynni mawr, maent ganddynt ran i'w chwarae hefyd i liniaru effeithiau newid hinsawdd drwy gymryd cyfrifoldeb am eu hallyriadau eu hunain.

Mae yna nifer o feysydd lle mae angen gwell eglurder a chanllawiau. Rydym yn cydnabod hyn, ac mae llawer o'n gwaith eleni wedi canolbwyntio ar ymdrin â'r angen hwn. Ffurfiodd 'Preparing for the future – Ofwat's climate change policy statement', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008, rhan ganolog o'r canllawiau hyn. Cyflwynodd y meysydd allweddol lle bydd newid hinsawdd yn effeithio ar y sectorau dŵr a charthffosiaeth a beth yr ydym wedi bod yn ei wneud – ac y bwriadwn ei wneud yn y dyfodol – i gwrdd â'r heriau o'n blaen. Mae hefyd yn cyflwyno ein barn ynglŷn â chyfrifoldebau'r cwmnïau.

Anela ein hymagwedd at bolisi newid hinsawdd at ddod â nifer o fanteision.

- Dylai ein canllawiau roi grym i'r cwmnïau i wneud achosion cryf o blaid buddsoddiadau sy'n ymwneud â newid hinsawdd. Rydym wedi gweld rhai achosion da yn barod wedi eu cyflwyno yng nghynlluniau busnes drafft y cwmnïau.
- Rydym am sicrhau bod y ffordd yr ydym yn rheoleiddio yn effeithiol ar gyfer yr heriau sydd i ddod. Mae ein hymagwedd yn cynorthwyo i amlygu'r gwaith ychwanegol sydd angen ei wneud.
- Rydym yn anelu at ddylanwadu a ffurfio polisiau newid hinsawdd ehangach y llywodraeth. Mae ein hymagwedd yn rhoi sylfaen o dystiolaeth i roi gwybodaeth i'r ddadl ar lefelau cenedlaethol ac Ewropeaidd fel bod y sectorau dŵr a charthffosiaeth yn ymateb yn effeithiol i newid hinsawdd.

Yn bennaf, fodd bynnag, ein hymagwedd – a'n gwaith eleni – fu i sicrhau bod y cwmnïau'n deall ac yn cymryd perchnogaeth o'r materion allweddol. Rydym yn disgwyl i bob cwmni fabwysiadu dull graddol tuag at addasu i newid hinsawdd a lliniaru ei effeithiau, sy'n ystyried y cyd-destun tymor hir a thymor byr. Golyga hyn y dylid seilio cynigion buddsoddi yn y dyfodol ar dystiolaeth gadarn ac y dylid cymryd unrhyw ansicrwydd i ystyriaeth.



Dr Mike Keil
Pennaeth Polisi Newid Hinsawdd

4. Sut yr ydym yn gwneud ein gwaith

Fel rhan o'n gwaith PR09, yn ystod 2008-09 fe wnaethom:

- gyhoeddi gofynion adrodd manwl ar gyfer cyflwyniadau'r cwmnïau i ni;
- darparu adborth rheolaidd a manwl ar y cyflwyniadau; a
- datblygu ein model ariannol a sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynorthwyo i wella safon cyflwyniadau'r cwmnïau i ni a'r lefel o dryloywder ar gyfer ein rhanddeiliaid i gyd. Yn ogystal, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Hannigan ar 'Data Handling Procedures in Government', gwnaethon gryfhau ein polisi diogelu gwybodaeth. Mae ein tîm datblygu wedi cynhyrchu system cipio cynlluniau busnes integredig newydd a model ariannol sy'n sail i bob agwedd ar PR09.

Yn ystod y flwyddyn, crëwyd Adran Marchnadoedd newydd hefyd er mwyn cynorthwyo i gyflenwi ein blaenoriaeth

strategol o gyflwyno cystadleuaeth yn gynyddol lle mae'n fuddiol i ddefnyddwyr. Penodwyd Cathryn Ross yn Gyfarwyddwr yr adran hon ym mis Gorffennaf 2008. Hefyd ym mis Gorffennaf, gwnaed ail benodiad newydd i'n tîm uwch reoli, pan ddaeth George Day yn Gyfarwyddwr Rheoleiddio'r Rhwydwaith.

Rydym am sicrhau bod gennym y bobl iawn, gyda'r sgiliau iawn, yn eu lle. I'r perwyl hwnnw, lanswyd safle micro penodol gennym ar gyfer recriwtio (www.jobsatofwat.org.uk).

Mae'r ffordd yr ydym yn datblygu ein staff yn bwysig i ni (gweler 'Astudiaeth achos: datblygu ein pobl' ar dudalen 23). Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'n cyfarwyddwyr ac arweinwyr tîm wedi cwblhau rhaglen ddatblygu lefel 5 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM). Yn ogystal, cymerodd pob aelod staff ran mewn rhaglen ddatblygu i wella cynllunio, gweithio mewn tîm a chyfathrebu mewnol. Parhawyd hefyd i weithredu ein cynllun

75c

Y swm yr oeddem yn ei gostio i bob cwsmer yng Nghymru a Lloegr yn 2008-09.

20 mlynedd

2009 yw ein hugeinfed blwyddyn fel rheoleiddiwr y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Ers preifateiddio'r cwmnïau ym 1989, mae'r lefelau gwasanaeth i gwsmeriaid wedi gwella'n sylweddol ac mae dŵr yn gollwng wedi gostwng gan dros draean.

“Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyflawni nifer o ddarnau allweddol o waith i gefnogi cyflenwi ein strategaeth – yn cynnwys rhaglen ddatblygiad traws-swyddfa i gryfhau cyfathrebu a gwaith tîm.”

Roger Dunshea
Cyfarwyddwr Gweithrediadau

hyfforddi hynod o lwyddiannus i raddedigion.

Gwnaethom barhau i fod yn ‘Fuddsoddwr mewn Pobl’. Mae hyn yn cynnwys cefnogi amrywiaeth o raglenni datblygiad, yn cynnwys cyrsiau rheoleiddiol arbenigol. Gan edrych ymlaen, yn 2009-10, byddwn yn cyflwyno dyfarniad ôl-radd mewn economeg cystadleuaeth mewn partneriaeth â Phrifysgol Warwick.

Mae gwaith arall eleni wedi cynnwys:

- gwella ein trefniadau parhad busnes, drwy sefydlu swyddfa adfer newydd oddi ar y safle ac adolygu ein cynllun parhad busnes.
- datblygu proses cynllunio busnes newydd sy’n cyfateb adnoddau â chyflawni ein strategaeth;
- cymryd rhan yng nghynllun West Midlands Travel Wise (cynyddu nifer y cydweithwyr sy’n teithio i’r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus); a

- pharhau i hyrwyddo ailgylchu ar draws y swyddfa.

Roedd ein strategaeth newydd yn gofyn am newid sylweddol yn ein cyllideb o’i gymharu â 2007-08. Eglurir hwn yn atodiad 6 ar dudalen 32.

Y prif sbardunau am hyn oedd:

- sefydlu’r Adran Marchnadoedd newydd; a
- gweithredu gorfodi.

Roedd ein gwariant o £14.9 miliwn yn 2008-09 yn cynrychioli tanwariant o £3 miliwn yn erbyn y gyllideb. Y prif reswm am hyn oedd oherwydd nad oedd angen darpariaeth wrth gefn rhag ymglyfreitha. Gohiriwyd rhai prosiectau tan 2009-10.

Bydd y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i’w osod yn erbyn ffioedd trwyddedau yn y dyfodol neu fel arian wrth gefn ar gyfer costau mawr heb eu cynllunio.

Sut yr ydym yn gwneud ein gwaith: astudiaeth achos

Datblygu ein pobl

Fel sefydliad rydym yn mynd drwy gyfnod cyffrous iawn. Mae’r cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio yn wynebu heriau sylweddol a rhaid i’n rheoleiddio fod yn ddigon hyblyg i sicrhau eu bod yn bodloni’r heriau hyn. Mae ein strategaeth yn cyflwyno sut y byddwn yn datblygu rheoleiddio economaidd yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth dros y tymor hir. I gyflawni hyn, mae’n rhaid i ni ddatblygu ein prif ased – ein cydweithwyr.

Mae rhan o hyn yn ymwneud â sicrhau ein bod yn recriwtio’r bobl iawn. Eleni, datblygwyd gwefan recriwtio newydd gennym er mwyn targedu ymgeiswyr proffesiynol o’r radd uchaf ar gyfer nifer o rolau. Mae ein swyddfa fach yn Llundain, a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn, yn golygu y gallwn gynnig gyrfaoedd mwy hyblyg nag erioed o’r blaen.

Rhan bwysig arall yw datblygu’r sgiliau sydd gennym yn barod. Yn ystod y flwyddyn, fe gymerodd y rhan fwyaf o’n cyfarwyddwyr a’n harweinwyr tîm ran mewn rhaglen datblygu sgiliau. Mae hyn wedi cynorthwyo i ddatblygu arweinyddiaeth yn y swyddfa. Yn dilyn hyn, mae pob aelod staff wedi derbyn hyfforddiant ar brif elfennau’r rhaglen. Mae’r manteision wedi cynnwys:

- atgyfnerthu’r syniad o bwrpas cyffredin ar draws y sefydliad;
- adeiladu a defnyddio’r hyn a ddysgir i wella ein perfformiad a’n cynorthwyo i gyflawni ein strategaeth;
- cryfhau cysylltiadau rhwng cydweithwyr ar draws y swyddfa; a
- cynorthwyo i wella cyfathrebu.

I gynorthwyo gyda chynllunio ar gyfer olyniaeth ac i ddatblygu rhai sy’n dymuno neu sy’n ymarfer bod yn rheolwyr llinell yn y dyfodol, rydym bellach yn rhoi cyfle i gydweithwyr astudio am Dystysgrif ILM mewn Rheolaeth Llinell Gyntaf (lefel 3).



Y flwyddyn nesaf, byddwn yn ymgeisio eto am ail achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl. Rydym wedi ymrwmo i ddysgu’n barhaus o brofiad ac i ddatblygu ein pobl.

Elizabeth Davidson
Pennaeth Adnoddau Dynol

Atodiad 1: Sut oedd ein perfformiad yn ystod 2008-09

Yn 'Ofwat's strategy – taking a forward look', cyflwynwyd nifer o gamau gweithredu penodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09. Mae'r tabl isod yn dangos ein perfformiad.

Adran	Sylwadau
Cadw defnyddwyr wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud	<p>Cwblhawyd y rhan fwyaf o'n gwaith yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, cafodd ychydig o'r gwaith arfaethedig ei newid, ei ohirio neu ei ddiddymu am nad ystyrid ei fod bellach yn angenrheidiol.</p> <p>Byddwn yn cynnal ymchwil i flaenoriaethau'r cwsmer i lywio ein hadolygiad o gymhelliant gwasanaeth defnyddwyr yn 2009-10.</p> <p>Byddwn yn cyfrannu at adolygiad y Llywodraeth o gynrychiolaeth defnyddwyr dŵr y dyfodol pan gyhoeddir ef.</p> <p>Rydym yn ystyried y llenyddiaeth i'r defnyddiwr a gyhoeddwn fel rhan o ddatblygiad parhaus ein gwefan.</p>
Cadw cwmnïau yn atebol	<p>Cwblhawyd neu parhawyd â'r rhan fwyaf o'n gwaith yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, bu dau newid.</p> <p>Rydym yn datblygu, a byddwn yn ymgynghori ynglŷn â fframwaith strategol er mwyn cadw cwmnïau'n atebol, sy'n lleihau'r baich rheoleiddiol.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth reoleiddiol pob cwmni ar gyfer 2008-09 yn fuan ar ôl iddo gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2009.</p>
Gorfodi cydymffuriad mewn ffordd resymol a thryloyw	<p>Cyhoeddwyd ein hymagwedd tuag at orfodi ym mis Mawrth 2009. Byddwn yn ymgynghori ynglŷn â'n hadolygiad o'n polisi yn ymwneud â chosbau ariannol yn 2009-10.</p>
Cyflwyno cystadleuaeth yn gynyddol lle mae'n fuddiol i ddefnyddwyr	<p>Cwblhawyd neu parhawyd â'r rhan fwyaf o'n gwaith yn ôl y bwriad. Rydym wedi dechrau gwneud gwelliannau i'r broses ceisiadau am benodiadau newydd a disgwylir y byddwn yn gweithredu gwelliannau pellach yn 2009-10.</p>
Rheoleiddio'n effeithiol lle na fydd cystadleuaeth yn diogelu defnyddwyr	<p>Cwblhawyd neu parhawyd â'r rhan fwyaf o'n gwaith yn ôl y bwriad. Ond yn lle cynhyrchu datganiad polisi arloesedd, cyflwynasom ein polisi yn ein hymatebion a gyhoeddwyd i adolygiad annibynnol Cave ynghylch cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd dŵr.</p>
Cymryd safbwynt hir dymor yn ymwneud â chynaliadwyedd	<p>Cwblhawyd neu parhawyd â'r rhan fwyaf o'n gwaith yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, roedd tri newid.</p> <p>Comisiynwyd ymgynghorydd gennym i adolygu'r achos dros fethodoleg wahanol ar gyfer gosod targedau ar gyfer gollyngiadau, ond daeth i'r casgliad na fyddai'n gwella ar y dull cyfredol. Cyhoeddwyd ein canfyddiadau, gydag adroddiad yr ymgynghorydd, yn PR09/16, 'Cost base feedback report'</p> <p>Yn lle cyhoeddi polisiâu amgylcheddol a chymdeithasol, ym mis Mawrth 2009, cyhoeddwyd 'Water today, water tomorrow – Ofwat and sustainability' – diweddariad o'n hymagwedd tuag at ddatblygiad cynaliadwy.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi manylion adolygiad systematig o gofrestrau cofrestrau 'mewn perygl' o orlifo'r cwmnïau yn 2009-10.</p>
Ffurio'r agenda rheoleiddiol ar lefel genedlaethol a'r UE	<p>Cwblhawyd neu parhawyd â'n gwaith yn ôl y bwriad.</p>

Atodiad 2: Rhoi ystyriaeth i ganllawiau cymdeithasol ac amgylcheddol oddi wrth y Llywodraeth

O dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cynulliad Cymru bwerau i gyhoeddi canllawiau cymdeithasol ac amgylcheddol ar wahân i Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr). Mae'n ofynnol ein bod yn ystyried y ddwy set o ganllawiau wrth gyflawni ein swyddogaethau statudol.

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei ganllawiau cymdeithasol ac amgylcheddol statudol terfynol i ni ar 22 Medi 2008. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chanllawiau ar 23 Chwefror 2009.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gwneud hi'n ofynnol ein bod ni'n dangos yn ein hadroddiad blynyddol bob blwyddyn sut yr ydym wedi cyfrannu tuag at gyflawni'r polisiau a gyflwynir yn eu setiau eu hunain o ganllawiau. Dengys y tablau isod sut y bodlonwyd y gofyniad hwn yn 2008-09.

Canllawiau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Maes polisi	Enghraifft o gyfraniad
Datblygiad cynaliadwy	'Water today, water tomorrow – Ofwat and sustainability' (Mawrth 2009)
Dŵr yn y dyfodol	'Setting price limits for 2010-15: Framework and approach' (Mawrth 2008)
Polisiau cymdeithasol	
Tegwch a fforddiadwyedd	'Ofwat's future strategy for customer charges for water and sewerage services: consultation conclusions' (Awst 2008)
Cystadleuaeth	'Ofwat's review of competition in the water and sewerage industries: Part II' (Mai 2008)
Gwell rheoleiddio	Gweler atodiad 4 (tudalen 29)
Polisiau amgylcheddol	
Lliniaru (newid hinsawdd)	'Preparing for the future – Ofwat's climate change policy statement' (Gorffennaf 2008)
Addasu (i newid hinsawdd)	'Preparing for the future – Ofwat's climate change policy statement' (Gorffennaf 2008)
Cydbwysu cyflenwad/galw	'PR09/20: Water supply and demand policy' (Tachwedd 2008)
Llifogydd dŵr wyneb	'Surface water drainage charges: the current position' (tudalennau gwefan)
Gwynwch	'PR09/12: Asset resilience to flood hazards: development of an analytical framework' (Mehefin 2008)
Ansawdd dŵr	'Setting price limits for 2010-15: Framework and approach' (Mawrth 2008)

Canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Maes polisi	Enghraifft o gyfraniad
Datblygiad cynaliadwy	'Water today, water tomorrow – Ofwat and sustainability' (Mawrth 2009)
Safbwynt tymor hir	'Setting price limits for 2010-15: Framework and approach' (Mawrth 2008)
Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol	'Water today, water tomorrow – Ofwat and sustainability' (Mawrth 2009)
Adrodd gan gwmnïau (gwell rheoleiddio)	Gweler atodiad 4 (tudalen 29)
Ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned	'Understanding customers' views – PR09 quantitative research into customers' priorities for the Water Industry Stakeholder Steering Group' (Chwefror 2009)
Datblygiad economaidd	We are working with the Technology Strategy Board (TSB) on developing an Innovation Platform for water. See www.innovateuk.org/ for details of the TSB's work.
Cyfrifoldebau cymdeithasol ehangach	'Setting price limits for 2010-15: Framework and approach' (Mawrth 2008)
Fforddiadwyedd dŵr	'Setting price limits for 2010-15: Framework and approach' (Mawrth 2008)
Mesur a chodi tâl	'PR09/20: Water supply and demand policy' (Tachwedd 2008)
Codi tâl	'Ofwat's future strategy for customer charges for water and sewerage services: consultation conclusions' (Awst 2008)
Cystadleuaeth	'Ofwat's review of competition in the water and sewerage industries: Part II' (Mai 2008)
Polisiau amgylcheddol	'Water today, water tomorrow – Ofwat and sustainability' (Mawrth 2009)
Strategaeth amgylcheddol	'PR09/20: Water supply and demand policy' (Tachwedd 2008)
Newid hinsawdd	'Preparing for the future – Ofwat's climate change policy statement' (Gorffennaf 2008)
Lleihau allyriadau a chadw cronfeydd carbon	'Preparing for the future – Ofwat's climate change policy statement' (Gorffennaf 2008)
Addasu i effeithiau newid hinsawdd	'Preparing for the future – Ofwat's climate change policy statement' (Gorffennaf 2008)
Cydbwysu cyflenwad/galw	'PR09/20: Water supply and demand policy' (Tachwedd 2008)
Effeithlonrwydd dŵr	'PR09/20: Water supply and demand policy' (Tachwedd 2008)
Allyriadau	'PR09/20: Water supply and demand policy' (Tachwedd 2008)
Llifogydd a gwynwch	'Setting price limits for 2010-15: Framework and approach' (Mawrth 2008)
Llifogydd dŵr wyneb a'r rhaglen dulliau newydd ar gyfer rheoli risg llifogydd a risgiau arfordirol yng Nghymru	'Ofwat's response to Defra's consultation on improving surface water drainage' (Mawrth 2008)
Gwrthsefyll peryglon naturiol	'PR09/12: Asset resilience to flood hazards: development of an analytical framework' (Mehefin 2008)
Cynnal a gwella safonau ansawdd dŵr	'Setting price limits for 2010-15: Framework and approach' (Mawrth 2008)
Partneriaethau cwmni dŵr yn gweithio gyda rheolwyr tir	'Setting price limits for 2010-15: Framework and approach' (Mawrth 2008)



Atodiad 3: Rhestr o asesiadau effaith a gyflawnwyd yn ystod 2008-09

Dyddiad cyhoeddi	Dogfen
4 Mai 2008	Arolwg Ofwat o gystadleuaeth yn y diwydiannau dŵr a charthffosiaeth: Rhan II (asesiad effaith drafft)
28 Awst 2008	Strategaeth Ofwat i'r dyfodol ar gyfer codi tâl ar gwsmeriaid am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth: casgliadau ymgynghori (asesiad effaith terfynol)
31 Hydref 2008	Strategaeth Ofwat i'r dyfodol ar gyfer codi tâl ar gwsmeriaid am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth: casgliadau ymgynghori (asesiad effaith terfynol)
19 Tachwedd 2008	Targedau effeithlonrwydd dŵr 2010-11 i 2014-15 (asesiad effaith terfynol)
13 Mawrth 2009	Gwahanu cyfrifon – ymgynghoriad ar ofynion adrodd am ddatganiad niferoedd mis Mehefin 2009-10 (asesiad effaith drafft)

Atodiad 4: Cynnydd o ran lleihau'r baich rheoleiddiol

Cyflwynodd y Llywodraeth y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddio a Sanctsiynau 2008 er mwyn darparu gwell rheoleiddio. Gosododd y Ddeddf ddyletswydd arnom i:

- adolygu'r beichiau rheoleiddiol a osodwn;
- lleihau unrhyw rhai nad oes eu hangen ac nad oes modd eu cyfiawnhau; ac
- adrodd am ein cynnydd bob blwyddyn.

Pan fyddwn yn adrodd am gynnydd, mae'n rhaid i ni sôn am yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn y 12 mis diwethaf a beth fyddwn yn ei wneud yn y 12 mis sydd i ddod, i adolygu ein swyddogaethau yn unol â'r dyletswyddau a restrwyd uchod. Mae'n rhaid i ni ddatgan hefyd y rhesymau ar gyfer cadw unrhyw feichiau diangen.

Mae ein rhaglen ar gyfer y dyfodol yn cyflwyno'r hyn y bwriadwn ei wneud dros y 12 mis sydd i ddod. Cyflwynir isod ein hadroddiad am yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn y flwyddyn ddiwethaf.

Adroddiad ar gynnydd

Yn ein 'Raglen ar gyfer 2009-10 i 2011-12' (Mawrth 2009), gwnaethom ymrwymo i ddatblygu ac ymgynghori ar fframwaith strategol i gadw cwmnïau yn atebol yn y cyfnod nesaf o dair blynedd. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys adolygiad o'r wybodaeth a gasglwn oddi wrth y cwmnïau.

Rydym am sicrhau bod y cwmnïau'n atebol i'w cwsmeriaid a'u bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Bydd y fframwaith yn lleihau'r baich rheoleiddiol yn unol â'r egwyddorion ar gyfer gwell rheoleiddio sef tryloywder, atebolrwydd, cymesuredd, cysondeb a thargedu. Bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu cystadleuaeth yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth.

Atodiad 5: Perfformiad yn erbyn y lefelau o wasanaeth a ddatganwyd gennym

Gwella perfformiad

Bob blwyddyn, rydym yn ymateb i filoedd o ymholiadau am wybodaeth gan y cyhoedd. Rydym hefyd yn ymchwilio i gannoedd o anghydfodau rhwng cwsmeriaid a'u cwmnïau dŵr. Mae ein siarter cwsmeriaid yn rhestru ein targedau ar gyfer ymateb i gwsmeriaid mewn modd amserol.

Mae'n siom gennym adrodd eleni ein bod wedi methu bodloni'r rhan fwyaf o'n targedau. Roedd hyn oherwydd cynnydd annisgwyl yn nifer y cwynion yn ystod 2008-09.

I gynorthwyo i wella ein perfformiad, rydym wedi gwneud newidiadau sefydliadol i gyfuno'r gwaith hwn mewn un tîm a recriwtio staff ychwanegol. Mae'r tîm newydd yn gweithio gyda'n harchwilwyr mewnol i wella eu systemau a'u prosesau. Byddwn hefyd yn caffael system TG newydd i gynorthwyo i reoli ac adrodd ynghylch y gwaith hwn.

- apeliadau yn ymwneud â charthffosydd;
- cwmnïau'n gwrthod gosod mesurydd dewisol;
- taliadau o'r cynllun safonau gwarantedig;
- apeliadau yn ymwneud ag elifiant masnachol; a
- gosod pibellau yn y stryd ac ar dir preifat.

Ymdriniwyd â 1,750 o anghydfodau a chwynion yn 2008-09, gan ennill ad-daliadau neu iawndal gwerth bron i £4 miliwn.

Mae'r amser a dreulir yn datrys cwynion yn dibynnu ar natur a chymhlethdod achosion unigol, ond ein bwriad yw bodloni ein safonau perfformiad. Mae'r tabl isod yn dangos ein perfformiad yn erbyn y safonau hyn.

Safon	Cyflawnwyd
Ymdrin ag 80% o gwynion heb ymchwiliad o fewn deng diwrnod gwaith	62%
Datrys 65% o gwynion gydag ymchwiliad o fewn tri mis (65 diwrnod gwaith)	64%
Datrys 80% o gwynion gydag ymchwiliad o fewn chwe mis (130 diwrnod gwaith)	85%

Ymholiadau cyffredinol

Yn 2008-09, ymdriniwyd â bron i 10,000 o ymholiadau ffôn (dros 160% yn fwy nag yn 2007-08). Yn ogystal buom yn ateb dros 1,300 o ymholiadau ysgrifenedig.

Safon	Cyflawnwyd
Ymdrin â 95% o ymholiadau ysgrifenedig o fewn deng diwrnod gwaith	69%

Anghydfodau a chwynion

Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cynrychioli defnyddwyr yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth. Mae'n delio â'r rhan fwyaf o gwynion gan ddefnyddwyr ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir gan eu cwmni dŵr neu garthffosiaeth, na all y cwmni ei hun eu datrys. Rydym yn cefnogi rôl ymdrin â chwynion y Cyngor Defnyddwyr Dŵr drwy roi cyngor ar achosion unigol a thrwy gyfrannu at weithdai.

Anghydfodau a chwynion yr ydym yn gyfrifol amdanynt:

- cwynion ynglŷn â pholisi rheoleiddiol;
- honiadau o dorri dyletswydd gan gwmni;
- taliadau cysylltu â'r cyflenwad dŵr a charthffosydd;
- ceisiadau am wasanaeth prif gyflenwad dŵr, carthffosydd a draeniau ochrol;
- trefniadau ariannol a mabwysiadu yn ymwneud â phrif gyflenwad wedi ei hunan-osod;

Atodiad 6: Crynodeb o'n gwariant am 2008-09

Yr wybodaeth ariannol a ddarperir yn y tablau isod yw'r rhagolwg diweddaraf sydd ar gael ac mae i'w harchwilio'n allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Paratoir cyfrifon yn unol â gofynion cyfrifo adnoddau Trysorlys ei Mawrhydi.

Ein costau gweinyddol 2008-09

	alldro 2007-08 £000	amcangyfri f 2008-0 £000	cynlluniau 2009-10 £000
Costau gweinyddol crynswth			
Staff	8,250	8,992	10,821
Arall	4,987	5,864	7,879
Cyfanswm y costau gweinyddol crynswth	13,237	14,856	18,700
Derbyniadau gweinyddol perthynol o ffioedd trwyddedu a mân dderbyniadau eraill	(13,237)	(14,856)	(18,700)
Cyfanswm y costau gweinyddol net	-	-	-

Costau gweinyddol yn ôl grŵp gweithgaredd 2008-09

	alldro a amcangyfrifwyd 2008-09 £000
Monitro a gweithredu rheoleiddiol	7,881
Materion corfforaethol a gwasanaethau cyfreithiol	2,370
Cyllid, adnoddau dynol, rheoli cyfleusterau, rheoli gwybodaeth a thechnoleg	3,554
Llety	1,051
Cyfanswm gwariant	14,856

Incwm a gwariant a amcangyfrifwyd 2008-09

	£000	£000
Incwm		
Ffioedd trwyddedu a adenillwyd	17,551	
Incwm arall (yn cynnwys ffioedd trwyddedu a ddygwyd ymlaen)	1,419	
Ffioedd trwyddedu heb eu defnyddio i'w gario ymlaen	(4,114)	
Cyfanswm incwm		14,856
Gwariant		
Staff parhaol	8,992	
Gorbenion personél	656	
Prosiectau ymgynghoriaeth	2,799	
Llety	1,051	
Uwchraddio llety	-	
Eitemau nad ydynt yn arian parod, er enghraifft dibrisiad	206	
Arall	1,152	
Cyfanswm gwariant		14,856

Atodiad 7: Rheoli adnoddau 2008-09

Recruiwio staff yn ystod 2008-09 (yn ôl rhyw a grŵp ethnig)

Lefel	Nifer a benodwyd	Cyfran o fenywod (%)	Cyfran o leiafrifoedd ethnig (%)
Pennaeth tîm/swyddogaeth	5	20	0
Rheolwyr canol	27	33	11
Clerigol ac ysgrifenyddol	27	55	15
Cyfanswm	59	42	12

Gwybodaeth am staff cyflogedig (ar 31 Mawrth 2009)

Staff cyfwerth ag amser llawn (ar 31 Mawrth 2009)	210
Cyfran o fenywod (%)	53
Cyfran o leiafrifoedd ethnig (%)	19
Cyfran sy'n anabl (%)	1.8
Aelodau o'r Gwasanaeth Sifil Uwch	8
Nifer o gytundebau cyfnod penodol ac achlysurol	16
Nifer y staff yn gweithio rhan-amser	42
Trosiant staff (%)	9.5

Cyflogau ar gyfer aelodau o'r Gwasanaeth Sifil Uwch (ar 31 Mawrth 2009)

£100,000 – £145,000	3
£90,000 – £99,999	3
£75,000 – £89,999	2

Staff a fynychodd hyfforddiant 2008-09 (yn ôl grŵp ethnig)

Grŵp ethnig	Nifer y dyddiau hyfforddiant (talgrynnir i fyny)	Canran (%) (talgrynnir i'r rhif cyfan agosaf)
Gwyn	1,081	85
Grwpiau ethnig eraill	186	15
Cyfanswm y dyddiau hyfforddiant	1,267	100

Crynodeb o wariant ar ymgynghoriaeth a gwasanaethau proffesiynol 2008-09 (cytundebau cwmnïau yn costio mwy na £50,000 heb gynnwys TAW)

Prosiect	Cyflenwr
Gwella rôl gwasanaethau cefnogi	Evolve Business Consultancy
Datblygiad sefydliadol	Field Enterprise Ltd
Gwasanaethau chwilio a hysbysebu gweithredol ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Marchnadoedd a Chyfarwyddwr Rheoleiddio Rhwydwaith	Odgers Ray & Berndtson
Dadansoddwr Technoleg Gwybodaeth Dros Dro	Badenock & Clark
Cyngor am gyflwyniadau yn seiliedig ar gost	Jacobs
Cyfle ar gyfer astudiaethau effeithlonrwydd	Reckon LLP
Adolygiad o gynlluniau cynnal cyfalaf cwmnïau (asesiad fframwaith cyffredin)	Mott Macdonald
Adolygiad o ragolygon a thybïaethau ynghylch treth yng nghynlluniau busnes drafft a therfynol cwmnïau	KMPG
Cyngor am gost cyfalaf a'r gallu i ariannu ar gyfer adolygiad prisiau 2009	Europe Economics
Cyngor ar y prosiect gwahanu cyfrifon a dyrannu costau	Ernst & Young LLP
Darpariaeth cyngor a dadansoddiad arbenigol ar y dull o amcangyfrif cost, gwerthuso a dyrannu risg, a rheoli prosiectau ar gyfer cynllun Thames Tideway	Mott Macdonald
Cyngor ar ariannu a chyflawni prosiectau cyfalaf mawr yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr	Pricewaterhouse Coopers
Gwefan Ofwat	Computacenter
Cyfarwyddwr Materion Allanol dros dro	Sand Resources Ltd
Cymorth ar gyfer adolygiad Ofwat o bolisi swmp-brisio yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth	Cambridge Economic Policy Associates Ltd
Cymorth ar gyfer adolygiad Ofwat o gystadleuaeth marchnad yn y sectorau dŵr a charthffosiaeth	KEMA Ltd

Argraffwyd yn y DU ar gyfer The Stationary Office Limited
ar ran Rheolwr y Llyfrfa
ID6145554 06/09

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.